



Hanfodion Polisi Amgylcheddol: Adfer ein moroedd

Mae arfordir Cymru, sy'n estyn 2,700km, yn enwog ledled y byd am ei harddwch a'i fioamrywiaeth, ond mae'r darlun o dan y tonnau yn llawer llai cadarnhaol. Mae ecosystemau sydd dan fygythiad yn wynebu nifer gynyddol o ffactorau sy'n rhoi pwysau arnynt, fel datblygiadau, gorbysgota, treillrwydo gwely'r môr, llygredd o ffynonellau ar y tir, a morgludiant.

Beth yw cyflwr ein moroedd ar hyn o bryd?
Mae ecosystemau morol Cymru'n wynebu ffactorau sy'n rhoi pwysau sylweddol arnynt, gyda thua hanner y cynefinoedd a'r rhywogaethau a aseswyd ('nodweddion') mewn Ardaloedd Morol Gwarchodedig mewn cyflwr anffafriol. Mae'r rhesymau dros hyn yn amrywio, gydag ansawdd dŵr gwael a'r newid yn yr hinsawdd yn chwarae rhannau arwyddocaol.

Bydd angen rheoli'r cynnydd disgwyliedig mewn datblygiadau morol (er enghraifft, ynni adnewyddadwy ar y môr) yn ofalus. I wella gwydnwch ecosystemau, bydd angen canolbwyntio ar adfer rhywogaethau, dynodi Ardaloedd Morol Gwarchodedig a gwella'r dulliau o'u rheoli, adfer cynefinoedd ehangach, a lleihau llygredd a ffactorau eraill sy'n rhoi pwysau ar yr amgylchedd.

Dyfodol cyfoethog o ran natur ar gyfer ein moroedd: Beth yw morwedd iach?

Mae morwedd iach yng Nghymru'n dibynnu ar y pethau a ganlyn:
- rhoi mesurau cadarn ar waith i warchod yr amgylchedd morol;
- rheoli adnoddau morol mewn ffordd gynaliadwy;
- cynllunio gofodol a blaenoriaethu effeithiol;
- gwydnwch yn wyneb y newid yn yr hinsawdd.







Mae rhwydwaith cyflawn o Ardaloedd Morol Gwarchodedig sy'n cael eu rheoli'n dda, ansawdd dŵr da, a chynllunio morol sy'n sensitif i natur yn cynorthwyo ecosystemau a bywyd gwyllt i ffynnu ochr yn ochr â gweithgareddau dynol. Mae adar môr a rhywogaethau eraill yn cael eu gwarchod drwy fesurau bioddiogelwch a strategaethau cadwraeth wedi'u targedu, tra mae Monitro Electronig o Bell yn cefnogi'r gwaith o reoli pysgodfeydd cynaliadwy. Mae gwarchod cynefinoedd carbon glas yn helpu i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd, ac mae datrysiadau sy'n seiliedig ar natur yn gwella gwydnwch cymunedau arfordirol yn wyneb llifogydd ac erydu.




Pa offer sydd gennym ni?

Yng Nghymru, mae bioamrywiaeth forol a chadwraeth forol yn cael eu gwarchod drwy gyfuniad o ddeddfwriaeth y Deyrnas Unedig (y DU) a Chymru. Mae deddfwriaeth y DU yn cynnwys y canlynol:

- Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 – sefydlodd y Ddeddf hon fframwaith ar gyfer cynllunio morol, trwyddedu, a chreu Parthau Cadwraeth Morol, a rhoddodd bwerau i Weinidogion Cymru dros gynllunio morol yn nyfroedd Cymru;
- Rheoliadau Strategaeth Forol y DU 2010 – maent yn ei gwneud yn ofynnol rhoi mesurau ar waith i gyflawni "Statws Amgylcheddol Da";
- Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 – mae'r rhain yn gwarchod cynefinoedd a rhywogaethau pwysig.

Mae deddfwriaeth Cymru'n cynnwys y canlynol:

- Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, sy'n cryfhau mesurau i warchod bioamrywiaeth forol drwy roi dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus i gynnal a gwella bioamrywiaeth ac i hybu ecosystemau gwydn;
- Deddf yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) 2026, sy'n rhoi dyletswyddau ar Weinidogion Cymru i ymlynu wrth egwyddorion amgylcheddol, ac i gyflawni Targedau Bioamrywiaeth sy'n eu rhwymo'n gyfreithiol.








Gyda'i gilydd, dylai'r deddfau hyn gefnogi cadwraeth forol, defnydd cynaliadwy o adnoddau, a gwydnwch hirdymor ecosystemau yng Nghymru. Fodd bynnag, ni weithredir yn ddigonol ar eu sail.

Beth yr ydym am weld Llywodraeth Cymru'n ei wneud i fynd i'r afael â'r argyfwng natur ar y môr?

- Cwblhau'r rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig drwy ddynodi mwy o Barthau Cadwraeth Morol, gan gefnogi camau i adfer ein moroedd ac i gyflawni 'Statws Amgylcheddol Da'.
- Sicrhau bod y rhwydwaith cyflawn o Ardaloedd Morol Gwarchodedig yn mynd i'r afael â'r diffygion o ran gwarchod cynefinoedd a nodweddion. Rhaid i o leiaf 30% o foroedd Cymru fod mewn Ardaloedd Morol Gwarchodedig a warchodir yn helaeth a bod yn gydnaws â chategori dynodi 2 o dan y Canllaw Ardaloedd Morol Gwarchodedig rhyngwladol, yng nghyd-destun rhwydweithiau ecolegol-gydlynol ehangach. Dylai o leiaf 10% fod o fewn ardaloedd a warchodir yn llwyr, gan ddefnyddio dull safle cyfan.
- Sicrhau bod holl nodweddion Ardaloedd Morol Gwarchodedig – a, phan fo'n berthnasol, safleoedd cyfan – mewn cyflwr ffafriol neu'n gwella, wedi'i ategu gan gyllid hirdymor ar gyfer gwaith rheoli, monitro, gorfodi, ac adfer.
- Cwblhau Asesiad Gofodol Llywodraeth Cymru o Foroedd Cymru a'i ddefnyddio i lunio fframwaith blaenoriaethu a fydd yn mynd law yn llaw â Chynllun Morol Cenedlaethol Cymru.
- Cymryd camau i adfer rhywogaethau, ac ariannu'r camau hynny, gan gynnwys y camau a geir yn y Strategaeth Gwarchod Adar Môr.
- Symleiddio'r broses trwyddedu morol, gan sicrhau ei bod yn hygyrch i grwpiau cymunedol a sicrhau bod modd cyflwyno datrysiadau sy'n seiliedig ar natur ar raddfa fawr i addasu i'r newid yn yr hinsawdd ac i adfer bioamrywiaeth forol.





Mae Cyswllt Amgylchedd Cymru yn rhwydwaith o Sefydliadau Anllywodraethol ym meysydd yr amgylchedd, cefn gwlad a threftadaeth yng Nghymru. Ein gweledigaeth yw amgylchedd ffyniannus yng Nghymru ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mae'r papur hwn yn cynrychioli barn gydsyniol grŵp o aelodau'r Cyswllt sy'n gweithio yn y maes arbenigol hwn. Fe all aelodau hefyd gynhyrchu gwybodaeth eu hunain er mwyn codi materion mwy manwl sy'n bwysig i'w corff arbennig nhw.

afonydd cymru
caring for welsh rivers

amphibian and reptile conservation

Bat Conservation Trust

BEAVER TRUST

buglife

Bumblebee Conservation Trust

CIEEM

ClientEarth

COED CADW WOODLAND TRUST

BMC
Cyngor Mynydda Prydain

BRITISH ECOLOGICAL SOCIETY

Butterfly Conservation

CAMPAIGN for NATIONAL PARKS

YMGYRCH y PARCIAU CENEDLAETHOL

CoedLleol SmallWoods

Ymddiriedolaeth Cwm Elan
Elan Valley Trust

Freshwater Habitats Trust

cadwch keep gymru'n wales daclus tidy

MARINE CONSERVATION SOCIETY

Ymddiriedolaeth Genedlaethol
National Trust

Open Spaces Society

Plantlife Cymru

RAMBLERS CYMRU

REWILDING BRITAIN

RIVERACTION

RSPB CYMRU

SURFERS AGAINST SEWAGE

Cymdeithas Eryri
Snowdonia Society

Soil Association CYMRU

WildFish.

Wildlife Trusts Wales
Ymddiriedolaethau Natur Cymru

WWF

YDCW CPRW

yha

Swydda Caerdydd
Tramshed Tech
Uned D, Stryd Pendyris Caerdydd CF11 6BH
F: 07498 228066 | E: enquiry@waleslink.org
Awyrlas: @waleslink.bsky.social

Cardiff Office
Tramshed Tech
Unit D, Pendyris Street, Cardiff CF11 6BH
T: 07498 228066 | E: enquiry@waleslink.org
Bluesky: @waleslink.bsky.social

www.waleslink.org

Cadeirydd | Chair: Roger Thomas. Cyf-Gyfarwyddwyr | Cyfarwyddwr | Director: Karen Whitfield
Rhif Elusen Gofrestredig | Registered Charity Number: 1022675